**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-30-10: 8 Rhagfyr 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400004_27_05_2010&t=0

**Amser: 09.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Janet Ryder, Gogledd Cymru (Cadeirydd)
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

**Ymddiheuriadau**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**CA506 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'i gwnaed ar:** 23 Tachwedd 2010
**Fe'i gosodwyd ar:** 23 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 6 Ionawr 2011

**CA507 - Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 26 Tachwedd 2010
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 21 Rhagfyr 2010

**Busnes arall**

**Ymateb i Adroddiadau Rhagoriaethau gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i Adroddiad Rhagoriaethau'r Pwyllgor ynghylch CA499 - y Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

**Ymateb i Adroddiadau Rhagoriaethau gan Brif Weinidog Cymru**

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Brif Weinidog Cymru i Adroddiad Rhagoriaethau'r Pwyllgor ynghylch CA504 - Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010.

**Penderfyniad i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod yr adroddiad drafft ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad drafft ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**8 Rhagfyr 2010**